Tri Bili-Bwch Gafr

Un tro roedd nid un, nid dau ond tri Bili-Bwch Gafr yn byw wrth ymyl yr afon.

Yn gynnar un bore, roedd y tri Bili-Bwch Gafr eisiau croesi'r bont i fwyta'r glaswellt gwyrdd neis ar ochr arall yr afon.

Yn gyntaf cerddodd Bili-Bwch Gafr Bach trip trap, trip trap dros y bont.

"Pwy sy'n cerdded trip trap, trip trap dros fy mhont i?" gofynnodd yr Ellyll Erchyll.

"Fi, Bili-Bwch Gafr Bach."

"Dw i'n mynd i dy fwyta di bob tamaid," rhuodd yr Ellyll Erchyll.

"O na! Plîs paid—aros nes daw fy mrawd. Mae o'n dewach na fi."

Felly cerddodd Bili-Bwch Gafr Bach dros y bont.

Ar ôl hynny cerddodd Bili-Bwch Gafr Canolig trip trap, trip trap dros y bont.

"Pwy sy'n cerdded trip trap, trip trap dros fy mhont i?" gofynnodd yr Ellyll Erchyll.

"Fi, Bili-Bwch Gafr Canolig."

"Dw i'n mynd i dy fwyta di bob tamaid," rhuodd yr Ellyll Erchyll.

"O, na! Plîs paid—aros nes daw fy mrawd. Mae'n dewach na fi."

Felly cerddodd Bili-Bwch Gafr Canolig dros y bont.

Yn olaf cerddodd Bili-Bwch Gafr Mawr—trip trap, trip trap dros y bont.

"Pwy sy'n cerddedd trip trap, trip trap dros fy mhont i?" gofynnodd yr Ellyll Erchyll.

"Fi, Bili-Bwch Gafr Mawr."

"Dw i'n mynd i dy fwyta di bob tamaid," rhuodd yr Ellyll Erchyll.

"O na dwyt ti ddim!" meddai Bili-Bwch Gafr Mawr.

Cerddodd Bili-Bwch Gafr Mawr—trip trap, trip trap dros y bont a gwthio yr Ellyll Erchyll i'r dŵr. SBLASH! SBLASH! SBLASH!

Ac wedyn dyma'r tri Bili-Bwch Gafr yn bwyta'r glaswellt gwyrdd neis a byw'n hapus am byth.